**Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/**
**Prif Weithredwr GIG Cymru**
**Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Director General Health and Social Services/**
**NHS Wales Chief Executive**
**Health and Social Services Group**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsay AC
Cadeirydd - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Ein Cyf/Our Ref:AG/IO//JM

1 Medi 2017

Annwyl Mr Ramsay,

**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus - Archwiliad o Berthnasoedd Cytundebol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ag RKC Associates Ltd a'i Berchennog**

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i e-bost dyddiedig 20 Gorffennaf yn gofyn am fy sylwadau ynghylch adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru "Archwiliad o Berthnasoedd Cytundebol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ag RKC Associates Ltd a'i Berchennog".

Fel y dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet yn glir, ni lwyddwyd i gyrraedd safonau llywodraethu da yn yr achos hwn. Yn ei adroddiad, nododd Archwilydd Cyffredinol Cymru fod Rheolau Sefydlog a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog yn bodoli, ynghyd â gweithdrefnau eraill, i ddarparu fframwaith rheoleiddio ar gyfer cynnal busnes o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (paragraff 20). Canfu i'r Bwrdd Iechyd Prifysgol fethu â chydymffurfio â'r fframwaith hwn mewn perthynas â'i berthnasoedd cytundebol gydag RKC Associates Ltd a'i berchennog.

Rwyf wedi cael fy sicrhau bod y Prif Weithredwr a'r Bwrdd yn cymryd yr adroddiad o ddifri, a'u bod yn cymryd y camau angenrheidiol i roi sylw i'r materion a sicrhau cydymffurfiaeth â'r fframwaith llywodraethu. Bydd penodiad diweddar Len Richards fel Prif Weithredwr yn caniatáu ymhellach i'r sefydliad ailosod 'diwylliant o gydymffurfio' o'r Cyfarwyddwyr Gweithredol a'r Bwrdd yr holl ffordd drwy'r sefydliad.

Bydd swyddogion Caerdydd a'r Fro yn ymddangos gerbron y Pwyllgor ym mis Medi, gan roi cyfle i'r Pwyllgor glywed yn uniongyrchol gan y Bwrdd Iechyd am y cynllun gweithredu sydd wedi'i osod i roi sylw i'r materion a godwyd yn yr adroddiad ac ymateb yn gywir i'r pryderon difrifol hyn.

Ysgrifennais at holl sefydliadau'r GIG yng Nghymru ar 17 Gorffennaf 2017 er mwyn tynnu eu sylw at adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru. Gofynnais iddynt adolygu eu trefniadau

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 02920 801182/1144
Andrew.Goodall@wales.gsi.gov.uk

Gwefan ● website: www.wales.gov.uk

llywodraethu ynghylch caffael a phenodi ar fyrder yng ngoleuni canfyddiadau'r adroddiad hwn. Gofynnais i Brif Weithredwyr ddarparu manylion y systemau gwirio sydd yn eu lle gan eu sefydliadau i sicrhau llywodraethu da ar y materion hyn.

Rwyf bellach wedi derbyn ymatebion i'm llythyr dyddiedig 17 Gorffennaf gan bob bwrdd ac ymddiriedolaeth iechyd, ac mae'r sefydliadau wedi fy sicrhau nad oes unrhyw fethiannau llywodraethu tebyg i'r rhai a amlinellwyd yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Fodd bynnag, mae'r materion a godwyd o fewn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru wedi caniatáu i holl sefydliadau'r GIG yng Nghymru adolygu ac, os oes angen, tynhau eu gweithdrefnau llywodraethu.

Byddwn yn disgwyl gweld rhai gweithdrefnau llywodraethu ar y materion hyn yn eu lle o fewn yr holl sefydliadau, felly rwyf wedi manteisio ar y cyfle i osod rhain yn ffurfiol eto i sefydliadau'r GIG. Ysgrifennais at y byrddau a'r ymddiriedolaethau unwaith eto ar 30 Awst i amlinellu'r disgwyliadau hyn.

Yn gywir



**Dr Andrew Goodall**